Plant yng Nghymru

Cymru Addas ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

2007

Prif Swyddfa:
25 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434
Ffacs: 029 2034 3134

Swyddfa Gogledd Cymru:
24-26 Stryd Fawr, Caernafon LL55 1RH
Ffôn: 01286 677570
Ffacs: 01286 676095

ebost: info@childreninwales.org.uk
Gwefan: www.plantyngnghymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif: 1020313

PLANT YNG NGHYMRU • CHILDREN IN WALES

Mae Plant yng Nghymru yn herio pleidiau gwleidyddol i fynd i'r afael â'r prif faterion y cred ein haelodau sydd angen sylw er mwyn gwella bywyd plant a phobl ifanc yn byw yng Nghymru. Daeth y materion hyn i'r amlwg gan ein haelodau dros y pedair blynedd ddiwethaf. Nid yw'n bosibl rhestru yma'r holl ddiffygion mewn gwasanaethau a ddynodwyd megis gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (CAMHS), neu wasanaethau ar gyfer plant anabl. Yr hyn sy'n bosibl fodd bynnag yw hyrwyddo cyfeiriad cryf ar gyfer sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Mae Deddf Plant 2004 yn rhoi cyfle allweddol i weithio tuag at weledigaeth a chyflenwi drwy un Cynllun Plant, ond mae angen eglurder a chysondeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn i'r nodau polisi gael eu trosi yn realaeth ar lefel leol.

Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Plant yng Nghymru

Catriona Williams
Prif Weithredydd Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad plant ymbarél cenedlaethol yng Nghymru, a ddaw â sefydliadau ac unigolion ynghyd i:

- Wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realaeth yng Nghymru
- Ymladd dros wasanaethau ansawdd uchel cynhaliadwy a chwarae teg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau y rhoddir sylw a thriniaeth arbennig i blant mewn angen a'r rhai sydd ar yr ymylon
- Rhoi llais i blant a phobl ifanc.

Y mae gan Plant yng Nghymru berthynas partneriaeth gyda Biwro Cenedlaethol y Plant, a Plant yn yr Alban, a Plant yng Ngogledd Iwerddon a rydym yn aelod gweithredol o Eurochild a'r Fforwm Rhyngwladol er lles Plant.

Cyflwyniad

Bu Plant yng Nghymru yn edrych yn ôl dros yr wyth mlynedd ddiwethaf a dylanwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fywyd plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at y tymor pedair blynedd nesaf. Nid oes unrhyw amheuaeth fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel sefydliad seneddol ifanc wedi cymryd materion pobl a phobl ifanc o ddifrif. Mae aelodau Plant yng Nghymru wedi gwerthfawrogi cael y mynediad i wleidyddion a'r dialog a fu'n bosibl fel canlyniad. Mae parodrwydd Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ar argymhellion blaenorol Plant yng Nghymru megis Comisiynydd Plant Cymru, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru a Gweinidog Plant, yn ogystal ag ymrwymiad i fuddsoddi mewn plant ifanc drwy Dechrau'n Deg a chanolbwyntio ar ffyrdd o fynd i'r afael â materion megis tlodi plant, hefyd wedi ei werthfawrogi'n fawr.

Fodd bynnag, ein gwaith ni yw adlewyrchu'r materion cyfoes a ddynodwyd gan ein haelodau sydd yn gweithio gydag ac ar gyfer plant a phobl ifanc, o amrywiaeth o ddisgyblaethau a sectorau yng Nghymru heddiw. Mae nifer o'n aelodau o'r sector gwirfoddol wedi cynhyrchu deunydd ar wedd maniffestos neu bapurau briffio ar bynciau penodol sy'n cynnwys argymhellion manwl ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol parthed meysydd ar wahân o bolisi. Er enghraifft, gwnaeth Lleisiau o Ofal Cymru argymhellion i wella bywyd plant a phobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' a bu Barnado's Cymru, NCH Cymru, Tros Gynnal, NSPCC ac Achub y Plant yn cydweithio i gynhyrchu cyfres gynhwysfawr o bapurau briffio ar 14 thema wahanol. Yn yr un modd mae aelodau o'r sector statudol wedi codi llawer o faterion gyda ni, yn arbennig yng nghyswllt gweithredu ar lefel leol.

Mae'n amlwg yn amhosibl rhoi manylion llawn yn y papur byr hwn am y llu o feysydd gwella y soniodd ein haelodau amdanynt, ond mae 'Cymru Addas ar gyfer Plant a Phobl Ifanc' yn cynnwys ein cyngor gorau i bleidiau gwleidyddol a gwneuthurwyr polisi Cymru. Fe'i hanelwyd hefyd at Lywodraeth Cynulliad Cymru y dyfodol ac at Aelodau Cynulliad o bob plaid wleidyddol.

Nid oes gan dros 600,000 o blant a phob ifanc yng Nghymru yr hawl i bleidleisio. Mae llawer o adfocatiaid a phlant a phobl ifanc eu hunain yn credu y byddai gostwng yr oedran pleidleisio o 18 i 16 y peth iawn i'w wneud, yn arbennig gan y gall rhai 16 i 18 oed briodi, talu trethi neu ymuno â'r lluoedd arfog! Byddai gwleidyddion yn ei chael yn anos anwybyddu'r materion o bwys i'r rhai dan 18 pe byddai ganddynt bleidlais. Mae felly yn fater i'r oedolion ymhlith y boblogaeth sydd â diddordeb yn yr ifanc i ddylanwadu a monitro'r hyn y mae pleidiau gwleidyddol yn ei ddweud a'i wneud ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gan grwpiau yn cynnwys rhieni, neiniau a theidiau, gofalwyr, rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, y cyfryngau ac, yn olaf, y gwleidyddion eu hunain a'u cynghorwyr gwleidyddol oll y potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol.

Byddwn yn edrych i weld os yw Llywodraeth y Cynulliad yn cyflawni ei holl addewidion i blant a phobl ifanc ac felly byddwn yn trefnu adolygiad canol ffordd ym mis Mai 2009 i asesu cynnydd. Mae hefyd yn bwysig y gall Cymru gymharu ei hunan gyda gwledydd eraill, oherwydd gwir fesur safiad cenedl yw pa mor dda yw'r sylw y mae'n ei roi i les plant – eu hiechyd a'u diogelwch, eu sicrwydd materol, eu haddysg a chymdeithasu a'u hymdeimlad o gael eu caru, eu gwerthfawrogi a chael eu cynnwys.

Mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn haeddu mwy na rhethreg. Dylid datblygu dangosyddion lles plant i fesur cynnydd yng Nghymru a chymharu lles plant yng Nghymru gyda gwledydd datblygiedig eraill. Rhaid rhoi pwysau digonol ar weithredu i sicrhau y caiff nodau polisi eu troi yn realaeth. Rhith yw gweledigaeth heb weithredu!

Er mwyn sicrhau fod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn arwain at wella lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, argymhellwn y camau gweithredu allweddol dilynol:

1. Creu Pwyllgor Craffu trawsbynciol yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi cyfle i greu Pwyllgor i graffu ar waith Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt pob agwedd o bolisi fel yr effeithiant ar blant a phobl ifanc ac i ddal Llywodraeth y Cynulliad i gyfrif. Dylid hefyd graffu ar effaith holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad sydd â dylanwad uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Yn bwysig, byddai'r Pwyllgor hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed ar yr Adroddiadau Blynyddol o Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

2. Creu Pwyllgor ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda lefel ddigonol o adnoddau gwasanaeth sifil cydlynol i'w gefnogi ar draws pob agwedd o bortffolios Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad

Mae Deddf Plant 2004 yn rhoi cyfle ar lefel leol i weithio mewn partneriaeth, i gronni cyllidebau ac i gynhyrchu cynllun unigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ardal pob awdurdod lleol. Mae felly'n hanfodol fod gweithio rhyngadrannol o fewn Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu'r ethos hwn ac yn sicrhau fod polisïau ac arweiniad, yn ogystal â deddfwriaeth newydd, yn gyson ac nad yw'n gwrthddweud. Dylai hefyd hyrwyddo cronni cyllidebau ar lefel genedlaethol yng nghyswllt cynlluniau penodol a ddylai yn ei dro symleiddio cyflenwi ar lefel leol. Byddai mwy o resymoli ar gynllunio a phrosesau arolygu yn cynorthwyo i wella cyflenwi gwasanaeth. Dylai holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad gael eu hystyried am eu heffaith ar blant a phobl ifanc.

3. Cryfhau rôl Gweinidog Plant (a phobl ifanc)

Bu rôl Gweinidog Plant yn bwysig yng Nghymru ers ei chreu, ond mae angen ei hadolygu yng nghyswllt sut y medrid ei gwneud hyd yn oed yn fwy effeithlon yn nhermau sicrhau cydlynu a chydgordio datblygu a gweithredu polisi ar draws portffolios Gweinidogion. Anogwn Lywodraeth newydd y Cynulliad i gefnogi rôl gryfach i'r Gweinidog Plant ar lefel uchel yn y cabinet. Mae'r gallu i gydlynu ar lefel leol, er enghraifft drwy gronni cyllidebau, yn galw am gydlynu amlwg o bolisïau ac arferion ar lefel Llywodraeth y Cynulliad.

4. Creu Strategaeth i hyrwyddo a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a ddylai gynnwys:

- Strategaeth ar gyfer lledaenu'r Confensiwn gan Lywodraeth y Cynulliad fel y caiff yr holl fudd-ddeiliaid allweddol eu hysbysu am ei bwysigrwydd a sut mae agenda seiliedig ar hawliau yn gweithio yn ymarferol
- Gwybodaeth a hyfforddiant digonol ar y Confensiwn ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n dilyn hyfforddiant proffesiynol
- Strategaeth gyfathrebu i ddylanwadu ar y cyhoedd a'r cyfryngau i roi delwedd gadarnhaol o blant a phobl ifanc
- Amlygwydd i'r Confension yng nghynllun strategol Llywodraeth y Cynulliad
- Profi fod holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Confensiwn
- Cynhyrchu dogfennau allweddol Llywodraeth y Cynulliad mewn fformat 'cyfeillgar i blant'
- Adnoddau i gydnabod y materion gallu i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol
- Adroddiad blynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyflwr gweithredu'r Confensiwn yn cynnwys sut y cafodd argymhellion gan Bwyllgor y Cenhedleodd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eu trafod

5. Llenwi'r bylchau pwysig mewn deddfwriaeth a pholisi i gynnwys:

- Rhaid i lywodraeth ddatganoledig Cymru barhau i arddangos pam fod mwy o reolaeth o fewn Cymru yn arwain at well bywyd i blant a phobl ifanc. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2004 yn cynnig cyfle i lenwi bylchau deddfwriaethol pwysig. Bu'n amhosibl cyflawni rhai drwy San Steffan, mae eraill yn rhai newydd
- Yn neilltuol dylid cynnwys cydymffurfiaeth gyda'r Confensiwn ym mhob darn o ddeddfwriaeth sydd un ai'n gysylltiedig yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc neu sy'n effeithio arnynt yn anuniongyrchol. Dylid sicrhau Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru yn ddeddfwriaethol megis strwythurau cyfranogiad cenedlaethol a lleol. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys ymestyn y ddyletswydd lawn o ofal i 21 oed p'un ai yw pobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' yn mynd ymlaen i addysg, fel na chânt eu gadael heb i'w hanghenion sylfaenol gael eu cyflawni

- Ddeddfwriaeth Gymreig ar gyfer plant a phobl ifanc yn dod ynghyd mewn dull cydlynol, o bosibl Deddf Plant a Phobl Ifanc i Gymru. Bydd hyn wrth gwrs yn galw am ystyriaeth systematig a manwl ac ni ddylai gael ei rhuthro
- Ymagwedd Gymreig at risgiau newydd megis peryglon o dechnoleg
- Gwella cydlynu rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig a'r Senedd Ewropeaidd, yn cynnwys:
    - Sicrhau y gwneir asesiadau effaith plant yn rhan o'r broses datblygu polisi ar bob lefel o lywodraeth
    - Fframwaith deddfwriaethol a pholisi cadarn sy'n llywio cydweithredu ymysg y tri sefydliad

6. Datblygu Dangosyddion Lles Plant a Strategaeth Ymchwil i gefnogi polisïau seiliedig ar dystiolaeth

Hyd yma cymharol ychydig o ymchwil seiliedig yng Nghymru a gynhaliwyd ar blant a phobl ifanc. Mae prosiectau ymchwil sylweddol yn gyffredinol wedi deillio o Loegr ac felly ni fu'r cyd-destun yn berthnasol bob amser. Yn yr un modd, er y bu symudiadau tuag at ddatgrynhoi data ar draws y DU ers datganoli, nid felly y mae bob amser felly wyth mlynedd ar ôl cyflwyno datganoli, mae Plant yng Nghymru yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi ystyriaeth o ddifrif i strategaeth ymchwil ar gyfer plant a phobl ifanc.

Byddai astudiaeth hydredol eang ei sail hefyd yn ffurfio llinell sylfaen ar gyfer datblygu dangosyddion lles plant y medrai effaith polisïau ddechrau gael eu mesur ohoni. Dylai dangosyddion lles plant gynnwys y meysydd dilynol: lles materol, iechyd a diogelwch, lles addysgol, perthynas gyda theulu a chyfoedion, ymddygiad a risgiau, lles goddrychol. Yn y ffordd hon medrir sicrhau darlun o fywyd plant Cymru. Byddai hyn hefyd yn ffurfio sail cymhariaeth gyda gwledydd eraill. Yn bwysig, byddai'r adroddiadau dimensiwn goddrychol gan blant a phobl ifanc am eu bywydau yn fodd o sicrhau effeithlonrwydd polisïau megis strategaethau gwrth-fwlio.

Gobeithiwn y bydd Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru yn codi I HER GWEITHREDU ac yn

7. Adolygu cydbwysedd cyffredinol buddsoddiad mewn plant

Mae'n hollbwysig y caiff cydbwysedd buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad mewn plant a phobl ifanc ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, yn arbennig mewn cymdeithas sy'n heneiddio a lle bydd gan blant a phobl ifanc heddiw alwadau sylweddol arnynt yn y dyfodol. Gwelsom ddechrau proses o 'gyllideb plant' a chroesewir hyn, ond mae hyn yn ei gamau cynnar ac mae angen ei ddatblygu a'i ymgorffori o fewn prosesau cyllideb rheolaidd Llywodraeth y Cynulliad.

8. Cefnogi Gweithio Partneriaeth

Partneriaethau yw'r strwythurau allweddol ar gyfer cyflenwi polisïau sylweddol ar gyfer plant a phobl ifanc ar hyn o bryd. Mae felly'n hanfodol fod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau fod Partneriaethau'n gweithio'n dda a'u bod yn cael cefnogaeth ddigonol i fod yn effeithlon. Rhaid cydnabod cyfraniad enfawr y sector gwirfoddol a'i ymgorffori'n ddigonol yn yr asesiad o angen, cynllunio a chyflenwi ar lefel leol.

9. Gwella Prosesau Caffaeliad

Er mwyn darparu gwasanaethau o'r safon uchaf, mae angen brys i adolygu'r prosesau caffaeliad i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas. Rydym yn argymell yn gryf y dylid cynnal darn manwl o waith i drawsnewid y modd presennol o feddwl am gaffaeliad a seiliwyd yn bennaf ar nwyddau ac nid ar wasanaethau i bobl, ac yn sicr nid ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n hollol bosibl, hyd yn oed o fewn deddfwriaeth Ewropeaidd, i ddatblygu modelau o wasanaethau gyda chyngor gan bartneriaid sydd â modelau a werthuswyd yn dda o fan arall. Mae hefyd yn bwysig ystyried y materion hyn ar hyn o bryd pan weithredir argymhellion adolygiad Beecham. Mae papur "Tueddiadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant mewn Angen" yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi dadansoddiad defnyddiol am yr angen ar gyfer comisiynu strategol effeithlon ar gyfer gwasanaethau plant.

Mae economi cymysg o ddarpariaeth o bob sector a gwasanaeth traws-ffin yn hanfodol, yn arbennig ar gyfer datblygu gwasanaethau ar gyfer y plant a phobl ifanc sydd dan fwyaf o anfantais a dylid cael maes chwarae gwastad ar gyfer y sector gwirfoddol.

10. Cefnogi Polisïau a Strategaethau Newydd yn Ddigonol

Gwelodd y pedair blynedd diwethaf yn neilltuol gyflwyniad llu o bolisïau allweddol yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau pwysig megis y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth; y Cynllun Gweithredu Rhianta; y Cyfnod Sylfaen; Dechrau'n Deg; Llwybrau Dysgu; Cynllun Gweithredu Tlodi Plant, Strategaeth Troseddu Ieuenctid Cymru a'r Strategaeth Gwasanaethau Ieuenctid. Er eu bod yn bwysig yn nhermau datblygu polisïau yng Nghymru, cyflwynwyd llawer ohonynt heb ddigon o adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â hwy gan eu gwneud yn ganmoladwy o ran uchelgais ond yn wan o ran cyflenwi, monitro a gwerthuso. Gobeithiwn yn y dyfodol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r mater adnoddau ar draws ei holl raglenni ar gyfer plant a phobl ifanc. Mewn geiriau eraill, mae'n hanfodol fod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau y caiff polisïau allweddol eu gweithredu'n effeithlon.

Mae angen cyfathrebu da fel mater o frys rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau lleol (yn cynnwys gwleidyddion lleol) yn ogystal ag eglurder a chydlynu arweiniad i bob asiantaeth berthnasol y disgwylir iddynt gyflwyno polisïau a strategaethau traws-asiantaeth. Er enghraifft, mae agweddau o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaeth Mamolaeth nad ydynt, os na chânt eu codi'n benodol, yn flaenoriaeth ar gyfer cyllidebau mewn Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau. Yn yr un modd, bu ymrwymiad addysg yn y Cynllun Gweithredu Rhianta yn fater.

11. Cefnogi Gwasanaethau Craidd

- **Hyfforddiant a Gweithlu**

  Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad roi ystyriaeth i bwysigrwydd cadw gweithlu a all gyflawni'r dyletswyddau craidd yn effeithiol yn ogystal â'r dyletswyddau a gwyd yn sgil cynlluniau newydd a:

  - Gweithredu strategaeth datblygu gweithlu a fydd yn sicrhau hyfforddiant i'r holl weithlu plant
  - Cydlynu hyfforddiant a chymwysterau a sicrhau cysylltiadau effeithiol gydag agenda hyfforddiant y DU i gefnogi recriwtio staff
  - Cefnogaeth a parch i'r proffesiynau sy'n gweithio gyda phlant

- **Arweiniad Clir**

  Mae angen arweiniad clir am yr hyn yw ac nad yw yn wasanaeth craidd. Er bod dyletswyddau wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth, mae'r llu o gynlluniau newydd wedi'i gwneud yn gynyddol anodd ar gyfer gwasanaethau craidd lle effeithiwyd ar recriwtio a chadw staff yn ogystal â chyllidebau gweithredol

12. Sicrhau y cyflwynir gwasanaethau yn ôl angen

- Dylid rhoi sylw ar frys i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer plant agored i niwed. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad oes loteri cod post parthed gwasanaethau ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hymylu megis plant anabl, plant o gymunedau du a lleiafrif ethnig neu deuluoedd yn ceisio lloches
- Rydym yn bryderus am fregusrwydd cyllid a ddynodwyd yn wreiddiol ar gyfer plant mewn angen megis 'Plant yn Gyntaf' a 'Cymorth', oherwydd bod angen diogelu'r cronfeydd hyn rhag y pwysau niferus ar gyllid y mae asiantaethau statudol yn eu hwynebu o'u holl feysydd gweithgaredd, nid yn unig y rhai'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn neilltuol o bwysig yn nhermau newid demograffig a phoblogaeth sy'n heneiddio
- Dylid monitro effaith Llywodraeth y Cynulliad ar blant a phobl agored i niwed ac wedi eu hymylu i geisio deall sut y medrir mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu'r plant hyn

13. Dysgu o Adroddiadau/Adolygiadau/Ymchwiliadau Blaenorol

Treuliwyd cryn lawer o amser ac arian ar Adroddiadau, Adolygiadau ac Ymchwiliadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar faterion yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Yn ychwanegol, mae'r Adroddiadau Blynyddol gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi tynnu sylw at y materion blaenoriaeth sydd o gonsyrn i blant a phobl ifanc eu hunain.

Mae'r broses o ddadl, trafodaeth ac ymateb terfynol Llywodraeth y Cynulliad i'r holl argymhellion hyn yn weithgaredd defnyddiol wrth godi ymwybyddiaeth o'r materion ar bwynt neilltuol mewn amser. Ymddengys mai'r hyn sydd ar goll fodd bynnag yw gweithdrefn ar gyfer monitro proses ar yr argymhellion a dderbyniwyd. Mae'r broses hon yn hanfodol os yw bywydau plant i gael eu gwella. Rhaid trosi gwersi o'r gorffennol yn weithredu cadarn fel na chaiff yr un camgymeriadau eu hailadrodd. Mae hyn yn neilltuol o wir ar gyfer arfer diogelu lle mae'n hanfodol gweithredu'n gyflym i ddiogelu plant rhag camdriniaeth.

14. Hyrwyddo Ymyriad Cynnar

Mae buddsoddiad parhaus mewn rhaglenni ymyriad cynnar yn hanfodol gan fod y manteision yn nhermau gostwng dioddefaint, gwella lles plant ac arbedion ariannol i'r llywodraeth yn sylweddol. Medrai hyn olygu defnyddio adnoddau dros dro o gyllidebau eraill y tu allan i wasanaethau plant er mwyn rheoli newid ffocws. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad hefyd gefnogi strategaethau sy'n ymyrryd yn ddigon cynnar ym mywyd plant hŷn sydd 'mewn angen' neu sy'n debygol o fod 'mewn angen'.

- Dechrau'n Deg – gobeithiwn y bydd Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru yn rhoi cefnogaeth weithgar i strategaethau i fuddsoddi mewn plant ifanc fel eu bod yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd. Yn achos cynlluniau sydd eisoes wedi denu peth cyllid cenedlaethol ychwanegol megis Dechrau'n Deg, byddem yn rhgoi anogaeth gref i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu ffrwd cyllid cynaliadwy ar y lefel briodol ac am y cyfnod priodol. Mae buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar yn rhoi llawer o fuddion cost i blant ac i gymdeithas yn gyffredinol yn y tymor canol i'r tymor hir. Mae hefyd yn hanfodol y caiff ei ymestyn i'r holl deuluoedd hynny sydd angen y lefel hon o gefnogaeth. Gwneir arbedion sylweddol pan fydd y plant yma'n hŷn os nad ydynt angen gwasanaethau arbenigol gan y gwasanaethau iechyd, addysg, cyfiawnder ieuenctid neu wasanaethau cymdeithasol sy'n gostus fel arfer

- Yn yr un modd hoffem weld ehangiad yn rhaglen cyllid RAISE sy'n anelu i godi lefelau perfformiad ymysg disgyblion dan anfantais a'r rhai sydd mewn risg o adael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau

- Rhaid bod hefyd gydnabyddiaeth fod y manteision i blant ac i gymdeithas yn gyffredinol yn rhai tymor canol i dymor hir a rhaid felly amseru gwerthusiad yn realistig

Rhaid gweithredu ar unwaith yn y meysydd polisi dilynol i:

1 *Weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth*

Mae angen brys i weithredu'r holl Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, ond yn arbennig felly feysydd CAMHS a gwasanaethau ar gyfer plant anabl a phlant eraill agored i niwed. Rhaid dyrannu adnoddau ar gyfer CAMHS ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 oed ac atal yr arfer o ddodi rhai dan 18 ar wardiau iechyd meddwl oedolion. Dylid rhoi adnoddau i holl amrediad gwasanaethau CAMHS yn cynnwys Haenau 3 a 4. Dylid hefyd roi arweiniad clir i bob asiantaeth sy'n ymwneud â chomisiynu a chyflenwi gwasanaethau sy'n cefnogi dyrannu cyllid i'r maes hwn o weithgaredd.

2 *Gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant*

Dylid rhoi blaenoriaeth i anghenion y teuluoedd tlotaf – rhieni unigol, teuluoedd gyda phlant anabl, teuluoedd mawr yn cynnwys rhai lleiafrifoedd ethnig, teithwyr sipsi a rhieni sydd i mewn ac allan o waith tymhorol. Dylid gweithredu argymhellion a monitro'r effeithiau, gan roi ystyriaeth i'r anghenion ar gyfer plant yn byw mewn ardaloedd gwledig neu mewn pocedi o ardaloedd mwy cefnog. Mae'n bwysig sicrhau fod gan ysgolion gynlluniau sy'n galluogi plant o deuluoedd tlawd i gymryd rhan lawn.

3 *Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Rhianta*

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ariannu ymgyrch addysg gyhoeddus ar ddewisiadau heblaw cosbi corfforol a dylid annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i fod ag ymagwedd gydlynol a strategol at gefnogaeth teulu/rhianta. Dylid rhoi pwyslais ar gynnwys rhieni yn addysg eu plant a hefyd ar weithredu safonau galwedigaethol ar gyfer y rhai'n gweithio gyda rhieni a dulliau cyffredin ac ymarferol o werthuso effeithlonrwydd, yn cynnwys rhaglenni lleol. Dylid mynd i'r afael â materion neilltuol ardaloedd gwledig, rhieni yn eu harddegau neu rieni eraill agored i niwed.

4 *Gweithredu'r Strategaeth Chwarae*

Dylai'r Strategaeth Chwarae gael ei gweithredu'n llawn ac yn neilltuol dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu parthau cartref a chyfleoedd chwarae stryd, llwybrau diogel i'r ysgol a chynnal gofodau chwarae lleol heriol a datlbygu cyfleusterau eraill. Mae plant a phobl ifanc o bob oedran angen mwy o gyfleoedd i chwarae a dilyn gweithgareddau hamdden yn eu cymunedau ac yn yr ysgol lle cafodd cyfleoedd eu herydu'n fawr drwy ostwng cyfleusterau ac amser. Dylai cyfleoedd chwarae cynhwysol ar gyfer plant anabl hefyd gael eu monitro megis cyfleoedd ar gyfer plant yn byw mewn ardaloedd gwledig.

5 *Sicrhau Gwasanaeth Adfocatiaeth a Chynrychiolaeth Annibynnol i Blant*

Dylai pob plentyn a pherson ifanc fedru cael mynediad i adfocatiaeth annibynnol pan fo angen iddynt, yn neilltuol y rhai o fewn y system amddiffyn plant neu'r rhai sydd yn neilltuol o agored i niwed. Fodd bynnag rhaid gweld adfocatiaeth yng nghyd-destun ehangach o hawliau a cyfranogiad plant.

6 *Gweithredu'r Strategaeth Gofal Plant a Sicrhau Cydbwysedd Gwaith-bywyd ar gyfer Plant*

Mae gofal plant yn nodwedd bwysig ym mhob rhan o Orllewin Ewrop ar hyn o bryd wrth i'n heconomïau gystadlu gyda gwledydd fel China. Mae'n ddealladwy fod gan bleidiau gwleidyddol ddiddordeb sylweddol mewn sicrhau fod cynifer o bobl ag sydd modd mewn cyflogaeth. Mae gofal plant yn nodwedd allweddol o'r strategaeth economaidd hon. Rydym eisiau i Lywodraeth y Cynulliad fod yn gadarn wrth sicrhau fod anghenion plant yn ganolog i arfer gofal plant a ddatblygir yn unol ag ethos y Strategaeth Gofal Plant a ddylai gael ei gweithredu. Heb ffocws sylfaenol ar y plentyn, mae risg na fydd plant yn cael y profiadau safon uchel yn eu bywydau ifanc sy'n hanfodol ar gyfer eu lles yn y dyfodol.

7 *Cefnogi Ysgolion i Hyrwyddo Lles Plant*

Dylid parhau i fonitro a gwerthuso effeithlonrwydd polisïau a mesurau gwrth-fwlio a dylent gynnwys rhannu arfer da ac adborth gan blant. Er mwyn ystyried dieithrio grwpiau mwy amddifadus o ddysgu, medrai Llywodraeth y Cynulliad ystyried comisiynu ymchwiliad i rwystrau yn ogytal â chadw ffocws penodol ar weithredu 'Cau'r Bwlch' ar gyrhaeddiad. Rhaid cyfnerthu addysg plant sy'n 'derbyn gofal' a grwpiau eraill ar yr ymylon a rhoi arweiniad i grwpiau neilltuol megis teithwyr sipsi. Mae'n neilltuol o bwysig y caiff athrawon eu hyfforddi i gyflenwi neu i ymrwymo eraill i gyflenwi: llythrennedd emosiynol, datrys problemau, llythrennedd ariannol, paratoi ar gyfer magu plant, perthynas briodol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hawliau plant. Yn ychwanegol, dylid cyhoeddi arweiniad ar gyfer ysgolion a gosodiadau gofal i hyrwyddo ymgyfraniad rhieni yn addysg plant, yn neilltuol rai sydd yn rhieni dan anfantais.

8 *Gwella Trosiannau*

Os yw gwasanaethau o ddifrif yn canoli ar y plentyn, dylid talu sylw agos i'r pwyntiau trosiannol ym mywyd plant a phobl ifanc. Mae hyn yn neilltuol o bwysig ar gyfer y rhai sydd yn fwyaf bregus neu amddifadus, yn cynnwys plant anabl. O fewn y system addysg, mae angen mesurau i hwyluso'r trosiant o un ysgol i'r llall ac o ysgol uwchradd i addysg uwch neu addysg bellach. Mae angen dynodi anghenion cefnogaeth ychwanegol a darparu gwasanaethau yn amserol er mwyn sicrhau parhad ac osgoi pwysau ychwanegol diangen. Mae'r un peth yn wir o fewn gwasanaethau cymdeithasol a iechyd lle mae trosiannau pwysig megis symud rhwng bod yn 'derbyn gofal' a byw annibynnol neu yn achos pobl ifanc anabl gydag anghenion iechyd symud o ofal cyfannol gwasanaeth pediatrig i arbenigeddau gwahanol strwythur gwasanaethau iechyd ar gyfer oedolion.

9 *Hyrwyddo Plant a Phobl Ifanc fel Dinasyddion yn eu Cymuned*

Mae'n bwysig hyrwyddo plant a phobl ifanc fel dinasyddion gweithgar a dylid annog Partneriaethau lleol ar draws pob agwedd o weithgaredd cymunedol i gynnwys yr ifanc, er enghraifft mewn gwaith yn gysylltiedig â diogelwch cymunedol neu adfywio cymunedol. Yn ychwanegol at y cyfleoedd chwarae a amlinellir uchod, dylai cyllid fod ar gael ar gyfer cynlluniau ieuenctid targedig sy'n gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a dylai cefnogaeth ariannol fod ar gael i deuluoedd ar incwm isel i fwynhau gweithgareddau hamdden teulu.

10 *Diogelu Plant a Phobl Ifanc*

Dylai gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant fod ar waith ym mhob sefydliad sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon, hamdden a diwylliannol i blant a phobl ifanc a dylai gwasanaethau therapiwtig fod ar gael drwy weithredu strategaeth CAHMS yn llawn. Mae hefyd yn bwysig ystyried canfyddiadau adroddiad 2003 y Gweithgor Cenedlaethol ar Ddiogelu Plant ac Anabledd "Dyw e ddim yn digwydd i blant anabl", er mwyn gwella'r ffordd y mae gwasanaethau diogelu plant yn ymateb i anghenion plant anabl. Dylid mynd i'r afael ag argymhellion "Ein Cadw yn Ddiogel" – adroddiad Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad ar Amddiffyn Plant Agored i Niwed. Dylai hefyd fod strategaeth genedlaethol ar gyfer plant gydag ymddygiad rhywiol niweidiol a hefyd strategaeth i drin ecsbloetiad rhywiol.

11 *Gwella bywyd Plant a Phobl Ifanc Anabl*

Dylai Llywodraeth y Cynulliad fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl gydag Anableddau a hefyd gefnogi fersiwn Cymru ymgyrch 'Mae Pob Plentyn Anabl yn Cyfrif'. Dylai hefyd weithredu'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer plant gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistig. Mae'n bwysig fod cynnydd ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant a hefyd gasglu data yn cael ei adolygu a bod pwerau newydd y Cynulliad yn cael eu defnyddio i greu cyfrifoldeb cyfreithiol am Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i gomisiynu ac ariannu ar y cyd wasanaethau datblygu plant ar gyfer plant anabl a phlant gydag anableddau dysgu dan oedran ysgol. Dylid cyflwyno deddfwriaeth i gynyddu lefel y gefnogaeth cartref a gwasanaethau gwyliau byr. Dylid gweithredu ar faterion cynllunio gweithlu ledled Cymru yng nghyswllt gwasanaethau seiciatrig a seicolegol ar gyfer plant anabl gyda phroblemau emosiynol neu ymddygiadol a dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau fod gan bob plentyn anabl yr offer priodol i'w galluogi i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant, chwarae a hamdden. Yn olaf, dylai plant a gaiff eu gwahardd i'r ysgol fod â hawl i gynrychioliad.

12 *Gwella Bywyd Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn Gadael Gofal*

Gweithredu deddfwriaeth newydd yn cynyddu oedran dyletswydd gofal llawn i 21, oed ynghyd â gweithrediad systematig yr argymhellion o'r holl adroddiadau blaenorol parthed y materion iechyd, addysg a lleoliad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n 'derbyn gofal'.

13 *Gwella bywyd Plant a Phobl Ifanc yng nghyswllt Cyfiawnder Ieuenctid*

Dylid cynnwys y Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid i arweiniad a chynllunio Deddf Plant 2004, yn arbennig yn ymwneud â'r cynllun sengl. Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio'n agos gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i hyrwyddo ac ariannu strategaethau a fydd yn cynorthwyo pobl ifanc sydd mewn risg o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy roi cyfleoedd iddynt sy'n eu hymrwymo mewn ffordd bwrpasol a chadarnhaol. Mae hefyd yn bwysig i fonitro gweithrediad Strategaeth Troseddu Ieuenctid Cymru a chynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rhan o'i agenda a hyrwyddo cysylltiadau i'w egwyddorion o "mae atal yn well na gwella" a "plentyn yn gyntaf a throseddwr yn ail". Mae angen ymagwedd gydlynol at ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys gwasanaethau Tîm Troseddu Ieuenctid a phrif ffrwd ledled Cymru ac mae angen datblygu'r gwaith cyfredol ar faterion cadw mewn dalfa fel mater o frys gyda'r Bwrdd Troseddu Ieuenctid.

14 *Gwella bywyd Plant a Phobl Ifanc sy'n Ceisio Lloches*

Dylid cydnabod fod plant sy'n ceisio lloches yn blant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dylai Llywodraeth y Cynulliad ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i sicrhau fod yr egwyddor o les gorau yn Erthygl 2 y Confensiwn yn weithredol ar gyfer pob plentyn sy'n ceisio lloches. Fel maes arbenigol mae'n galw am gasglu data arbenigol ar gyfer plant sydd gydag oedolion a phlant sydd ar ben eu hunain ynghyd ag adnodd gwybodaeth arbenigol ar gyfer ymarferwyr. Dylid hefyd gynnal adolygiad o fynediad i gynrychiolaeth gyfreithiol arbenigol a chymryd adfocatiaeth a gweithredu annibynnol arbenigol arall i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. Dylid hefyd roi ystyriaeth i sefydlu system gwarcheidwaeth. Mae hefyd yn hanfodol fod mynediad i ddarpariaeth iechyd, arbenigol os bo angen i hyrwyddo tegwch a mynediad i wasanaethau iechyd prif ffrwd. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau ffrydiau cyllid tymor-hwy ar gyfer gwasanaethau a sicrhau argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol diwylliannol dderbyniol ar gyfer plant mewn trawma.

15 *Gostwng Digartrefedd a Gwella Tai i Blant Ifanc a Theuluoedd*

Mae gweithredu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'i adolygiad ar Ddigartrefedd Ieuenctid yng Nghymru ("Busnes pawb: cyfrifoldeb neb" Chwefror 2007) yn ogystal â gweithio i ganfod datrysiadau cadarn ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc digartref yn flaenoriaeth bwysig. Gall hyn gynnwys ymrwymo mwy o fuddsoddiad cyhoeddus i gefnogi datblygiadau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparu mwy o dai fforddiadwy ac addas yng Nghymru. Bydd angen mynd i'r afael â datrysiadau neilltuol ar gyfer ardaloedd gwledig a theuluoedd sydd ag aelodau anabl. Bydd angen mynd i'r afael â mater llety ansawdd gwael o'r sector rhent preifat.

16 *Gwella Bywyd Plant a Phobl Ifanc yng nghyswllt Camddefnyddio Sylweddau*

Dylai cynrychiolydd plant fod ar Banel Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth y Cynulliad a dylid mynd ymlaen â themâu traws-dorri Niwed Cudd a'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu mewn ffordd gydlynol. Dylai Llywodraeth y Cynulliad hyrwyddo'r angen i wasanaethau camddefnyddio sylweddau plant a phobl ifanc fod ar gael o fewn pob awdurdod lleol a dylai cyllid CAMHS arbenigol fod ar gael. Dylai Llywodraeth y Cynulliad hyrwyddo gwasanaethau i ofalwyr ifanc sy'n gofalu am aelodau teulu.